**Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

**Dydd Mercher 23 Mawrth 2022 (10:00 – 15:00)**

**Microsoft Teams**

## Yn bresennol

**Cyfarwyddwyr:** Meri Huws (Is Gadeirydd, yn y gadair)
Ann Beynon
William Callaway
Nia Elias
Rhys Evans
Dr Anwen Jones
Gwilym Dyfri Jones
Angharad Roberts
Yr Athro Enlli Thomas

**Sylwedyddion:** Meg Hughes, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Branwen Thomas, Llywodraeth Cymru
Alan Jones, Llywodraeth Cymru

**Swyddogion:** Dr Ioan Matthews (Prif Weithredwr)
Dr Dylan Phillips (Ysgrifennydd)
Dr Dafydd Trystan (Cofrestrydd)
Gwenllian Griffiths (Prif Swyddog Ymgysylltu a Chyfathrebu)
Catrin Williams (Swyddog Datblygu Academaidd; Cofnodi)

**Ymddiheuriadau:** Pedr ap Llwyd, Llinos Roberts, Rhian Huws Williams

## 1. Eitem 1 – Croeso ac ymddiheuriadau

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Estynnwyd croeso i bawb a oedd yn bresennol yn y cyfarfod. | | |
| 1.2 | Nodwyd gyda thristwch marwolaeth Comisiynydd y Gymraeg, Aled Roberts, ac estynnwyd cydymdeimlad at Llinos a'r teulu yn eu profedigaeth.<br>Estynnwyd cydymdeimlad at Elin Williams, yn dilyn marwolaeth ei thad yn ddiweddar, ac at Nia Brown, yn dilyn marwolaeth ei mam. | | |
| 1.3 | Croesawyd Alan Jones (Llywodraeth Cymru) i'w gyfarfod cyntaf a dymunwyd yn dda i Branwen Thomas yn ei hymddeoliad. | | |
| 1.4 | Nodwyd ymddiheuriadau fel uchod. | | |

## 2. Eitem 2 – Datganiadau o ddiddordeb

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn lle gofynnir i aelodau nodi unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ychwanegol at y rheiny a nodwyd eisoes yn y Gofrestr Buddiannau. | | |
| 2.2 | Datganodd Ann Beynon, mewn perthynas â chynllun Cymraeg Gwaith y Coleg ei bod ar Fwrdd Cwmni Hafren Dyfrdwy, sy'n debygol o wneud cais am arian ar gyfer gwersi Cymraeg i'r staff. | | |

## 3. Eitem 3 – Derbyn cofnodion y cyfarfod ar 17 Tachwedd 2021

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2021. | | |

## 4. Eitem 4 – Materion yn codi

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Ni godwyd unrhyw faterion o'r cofnod. | | |

## 5. Eitem 5 – Adroddiad y Prif Weithredwr

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Ategodd y Prif Weithredwr sylwadau'r Cadeirydd am y diweddar Aled Roberts, gan nodi ei gefnogaeth i'r Coleg tra yn aelod o'r Senedd a'r cydweithio agos yn ystod ei gyfnod fel Comisiynydd y Gymraeg. | | |
| 5.2 | Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Prif Weithredwr ar ddatblygiadau cyfredol. | | |
| 5.3 | **Cyllideb 2022/23**<br>Adroddwyd ar y newyddion da am gyllideb y Coleg a diolchwyd i Branwen Thomas am ei chydweithrediad wrth drafod cynigion y Coleg ar gyfer cyllidebau'r | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | blynyddoedd nesaf. Nodwyd y byddai cyfle i edrych yn fanwl ar y gyllideb nes ymlaen yn y cyfarfod. | | |
| 5.4 | **Addysg Uwch**<br>Adroddwyd bod y gwaith ymgynghori gyda'r sefydliadau ar y Cynllun Academaidd wedi dechrau a disgwylir ymatebion ym mis Ebrill. Nodwyd y bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd.<br>Adroddwyd ar gynlluniau i gynnal cyswllt gyda myfyrwyr tu hwnt i Gymru. | Argymhellion yn dilyn ymgynghoriad ar Gynllun Academaidd y Coleg | 6 Gorffennaf 2022 |
| 5.5 | **Addysg Gychwynnol Athrawon**<br>Adroddwyd ar drafodaethau'r Coleg gyda Llywodraeth Cymru. Adroddwyd bod Dr Dafydd Trystan yn cynrychioli'r Coleg ar y Grŵp sy'n datblygu cynllun ar gyfer y Gweithlu Addysg. Nodwyd bod gwahaniaeth barn ar hyn o bryd rhwng y cynigion sydd wedi eu cyflwyno gan y Coleg i'r Grŵp a safbwyntiau rhai o swyddogion y Llywodraeth. Nodwyd y pryder nad yw ehangder yr her yn cael ei hadnabod a hynny yn y sectorau cynradd ac uwchradd.<br>Adroddwyd er mwyn sicrhau niferoedd mae'n rhaid i'r darparwyr wireddu'r ymrwymiadau y maent wedi eu gwneud wrth gael eu hachredu fel darparwyr, a bod cwestiwn ar hyn o bryd am gapasiti y darparwyr.<br>Adroddwyd bod prosiect peilot ar gyfer rhaglen fentora hyfforddi athrawon wedi ei gefnogi gan y Llywodraeth yn barod, a bod swydd Swyddog Addysg a Hyfforddi Athrawon yn cael ei hysbysebu gan y Coleg ar hyn o bryd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Yn dilyn trafodaeth cytunwyd fod y maes yma yn allweddol i lwyddiant strategaethau ehangach y Coleg, ac y dylid cadw llygad ar ddatblygiadau cenedlaethol. Nodwyd os nad yw'r strategaeth derfynol yn adlewyrchu'r hyn mae'r Coleg yn gweld sydd ei angen, bydd angen codi'r pryderon gyda'r Gweinidog. | | |
| 5.6 | **Penodiad Cydlynydd Gwrth-hiliaeth**<br>Cadarnhawyd fod penodiad wedi ei wneud i'r swydd a bydd cyflwyniad i'r Bwrdd maes o law. | | |
| 5.7 | **Dathliadau deng-mlwyddiant y Coleg**<br>Adroddwyd bod y Coleg yn aros i gadarnhau trefniadau'r digwyddiad yn y Senedd ar 10 Mai. Adroddwyd ymhellach y bydd yr ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol yn dechrau ym mis Mawrth. | | |
| 5.8 | **Gwobrau**<br>Adroddwyd bod bwriad ar hyn o bryd i gyflwyno Gwobrau'r Coleg yn yr Eisteddfod ac mewn noson wobrwyo (wedi ei darlledu'n fyw) ym mis Gorffennaf. | | |
| 5.9 | **Trefniadau gweithio**<br>Adroddwyd bod swyddfeydd y Coleg bellach ar agor yn llawn unwaith eto, a bod y Coleg yn arbrofi gyda'r dull hybrid o weithio. Adroddwyd bod nifer o benodiadau wedi eu gwneud i lenwi swyddi yn ddiweddar. | | |
| 5.10 | **Cynllun codi arian i gefnogi Wcráin**<br>Adroddwyd ar y bwriad i gynnal taith gerdded rithiol o Gaerfyrddin i Kiyv i godi arian ar gyfer adnoddau i'r lloches sy'n cael ei darparu gan yr Urdd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cytunwyd bod angen bod yn ofalus wrth gyfathrebu'r neges am yr ymgyrch. Nodwyd bod y Coleg yn bartner strategol i'r Urdd a bod y syniad am daith wedi codi gan lysgenhadon y Coleg, felly ei bod yn bwrpasol i'w chynnal. | | |

## 6. Eitem 6 – Adroddiad y Cadeirydd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Adroddodd yr Is Gadeirydd ei bod yn cynnal y cyswllt gyda Swyddogion y Coleg a'r Cadeirydd, a rhoddwyd sicrwydd na fydd unrhyw beth yn mynd ar goll yn y cyfnod hwn. | | |
| 6.2 | Adroddwyd bod cyfarfod blynyddol yn cael ei gynnal wythnos nesaf gyda Phrif Weithredwr a Chadeirydd y Cyngor Cyllido. Nodwyd y bydd Meri Huws yn ymuno yn y cyfarfod hwn. | | |

## 7. Eitemau 7 – Pwyllgor Archwilio a Risg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 7.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022.<br>Adroddwyd fod y Pwyllgor wedi cwrdd â'r Archwilwyr Allanol newydd. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7.2 | **Y Gofrestr Risg Strategol**<br>Cyflwynwyd y Gofrestr Risg Strategol. Adroddwyd bod y Pwyllgor wedi cytuno y dylid rhoi diweddariad llafar i'r Bwrdd ynghyd â'r gofrestr yn sgil yr amgylchiadau allanol ar hyn o bryd, gan gynnwys argyfwng y pandemig Cofid-19 a'r rhyfel yn Wcráin.<br>Cafwyd diweddariad llafar gan Dr Dafydd Trystan. Adroddwyd bod aelodau'r pwyllgor yn craffu'n fanwl ar y Gofrestr Risg ond bod angen i bawb ei chyd-berchnogi. Nodwyd bod y newidiadau i'r Gofrestr wedi eu derbyn gan y pwyllgor ond bod pryderon am nifer y myfyrwyr sy'n astudio trwy Gymraeg yn sgil y pandemig.<br>Nodwyd bod y risg ynghlwm â'r Cynllun Addysg Bellach wedi newid yn dilyn derbyn cyllideb, ac mae'r risg bellach yn ymwneud â chyflawni'r gwaith.<br>Adroddwyd bod y pwyllgor wedi trafod mewn manylder ffactorau allanol allai effeithio ar y Coleg, ond bod nifer ohonynt yn rhai nad oes gan y Coleg unrhyw reolaeth drostynt, er enghraifft costau tanwydd a chwyddiant.<br>Cytunwyd y dylai'r risgiau allanol hyn gael eu cadw gyda'i gilydd ar y gofrestr. Nodwyd bod y Bwrdd Cyfarwyddwyr yn gyfforddus gyda'r ffordd mae'r gofrestr yn cael ei llunio a'i hadolygu a gellid cadw hyn o dan ystyriaeth o gyfarfod i gyfarfod. | | |
| 7.3 | **Diogelwch Seibr**<br>Adroddwyd bod y Coleg wedi derbyn adroddiadau pwrpasol am y prosesau gan yr Archwilwyr Mewnol, a bod Heddlu De Cymru wedi gwneud arbrawf gwe-rwydo | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyda'r staff. Yn ystod trafodaeth fer, nodwyd bod rhai o'r staff wedi cael hyfforddiant pellach yn sgil hyn. | | |

**8. Eitemau 8 – Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 8.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 16 Chwefror 2022. | | |
| 8.2 | **Cyllideb y Coleg 2021/22**<br>Adroddwyd bod y pwyllgor wedi cael adroddiad ar wariant y Coleg ac ar yr amrywiadau sydd wedi codi yn ystod y flwyddyn. Nodwyd bod y Coleg wedi derbyn £130,000 i'w wario cyn diwedd y flwyddyn ariannol, a bod tri phrosiect wedi elwa o'r cyllid ychwanegol yma:<br>- Prosiect Gofal a Iechyd Prifysgol Glyndŵr.<br>- Prosiect mesur agweddau myfyrwyr at astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>- Prosiect i greu adnoddau ymwybyddiaeth iaith ar gyfer y maes iechyd a gofal.<br>Adroddwyd bod y gwariant ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol yn gyson gyda'r incwm, gyda rhyw fil neu ddwy dros y gyllideb.<br>Cytunwyd y bydd angen trafodaethau strategol yn dilyn derbyn canlyniadau yr astudiaethau ar ganfyddiadau myfyrwyr. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8.3 | **Buddsoddiadau**<br>Adroddwyd bod y pwyllgor wedi diweddaru'r Polisi Cronfeydd wrth Gefn. Nodwyd y gellid gweld maint y cronfeydd tymor hir a tymor canolig yn y cofnodion. Adroddwyd bod y rheolwr buddsoddiadau ar y cyfan yn canolbwyntio ar fuddsoddi moesegol.<br>Cynigwyd y gellid rhoi adroddiad manwl ar fuddsoddiadau i'r Bwrdd yn flynyddol petai angen, ond fe'u hatgoffwyd bod Sterling Asset Management yn adrodd i'r pwyllgor ar waith Sarasin y rheolwr buddsoddiadau a bod cofnod o hyn. | | |

## 9. Eitem 9 - Bwrdd Academaidd

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 9.1 | Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022.<br>Cyflwynwyd crynodeb o'r pwyntiau yn codi o gyfarfod 13 Hydref 2021, gan y Cadeirydd, Gwilym Dyfri Jones;<br>- Derbyniwyd diweddariad ar y prosiect deunyddiau dysgu digidol.<br>- Cafwyd cyflwyniad i'r prosiectau mesur agweddau myfyrwyr a chadw cyswllt gyda myfyrwyr.<br>- Derbyniwyd diweddariad gan y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi.<br>- Derbyniwyd diweddariad gan y cynrychiolwyr myfyrwyr. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 9.2 | Adroddwyd bod y Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi wedi argymell yn yr ymateb i'r ymgynghoriad gan HEFCW y dylai cyfuniad o'r Coleg a'r Gymdeithas Ddysgedig fod a rôl ddyfarnu.<br>Awgrymwyd y gallai'r Cyfarwyddwyr gael sesiwn briffio ar ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg. | Sesiwn briffio ar Ymchwil cyfrwng Cymraeg | Petai angen |

## 10. Eitem 10 – Diweddariad Addysg Bellach a Phrentisiaethau

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 10.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Bwrdd Strategol ôl-16 a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd 2021.<br>Adroddwyd y byddai'r Bwrdd Strategol yn cwrdd ar 30 Mawrth ac o 2022/23 ymlaen bydd cofnodion llawer mwy cyfredol o'r cyfarfodydd yn cael eu cyflwyno. | | |
| 10.2 | **Cyllideb**<br>Adroddwyd mai'r her bellach fydd defnyddio'r gyllideb newydd. Nodwyd mai megis dechrau mae'r daith Addysg Bellach a Darparwyr Prentisiaethau a bod heriau anferth yn eu wynebu o ran capasiti staffio, a diwylliant dwyieithog yn y Colegau. | | |
| 10.3 | **Capasiti staffio y Coleg**<br>Adroddwyd y bydd y capasiti staffio o fewn y Coleg yn cael ei adolygu'n barhaus, ond bod aelod newydd o staff yn cychwyn heddiw gyda'r Coleg gyda chefndir yn y sector prentisiaethau. Nodwyd y bydd Addysg Bellach a | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Phrentisiaeth yn ran o'r gwaith ar draws y Coleg gan gynnwys gwaith y tîm marchnata a'r Swyddogion Pwnc. | | |
| 10.4 | **Polisi Prentisiaethau**<br>Adroddwyd bod y Llywodraeth yn anelu at adolygu'r polisi prentisiaethau erbyn Mawrth 2022, ond nad yw hyn wedi ei wneud eto.<br>Adroddwyd bod 8% o gyflogwyr yn ymwneud â phrentisiaethau, ond byddai'n ddiddorol cael gwybod faint o brentisiaethau sy'n bodoli ond ddim yn cael eu hariannu gan y Llywodraeth. | | |
| 10.5 | **Codi ymwybyddiaeth**<br>Gofynnwyd beth yw rôl y Coleg i godi ymwybyddiaeth o'r posibiliadau cyfrwng Cymraeg? Adroddwyd bod hon yn rôl bwysig i'r Coleg, a bod awydd i gynnig gwybodaeth ac i weithio gyda disgyblion ifancach yn yr ysgolion, ond mae hefyd angen bod yn ofalus o'r sensitifrwydd rhwng ysgolion a cholegau.<br>Nodwyd bod cynlluniau i dargedu meysydd blaenoriaeth a thargedu diwydiannau penodol wrth farchnata. | | |

## 11. Eitemau 11 – Cyllideb y Coleg

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 11.1 | Adroddwyd mai cyfanswm incwm y Coleg yn 2022/23 fydd £9,441,000. Nodwyd bod cynllun gwario wedi ei baratoi yn dilyn ymgynghori gyda'r Rheolwyr, ac wedi ei gyflwyno i'r Llywodraeth. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cafwyd trafodaeth ar y materion canlynol:<br><br>**Grantiau Cangen**<br>Cadarnhawyd, er fod y model wedi newid ychydig, bod rhan fwyaf o’r Grant yn parhau i fynd at gyflog y Swyddog Cangen, a’r gweddill ar gyfer cefnogi gweithgareddau.<br>**Gofodau Dysgu**<br>Nodwyd bod y Coleg wedi peidio darparu cyllid ers sawl blwyddyn i gynnal a chadw y gofodau dysgu. Cadarnhawyd y bydd cost i uwchraddio offer a meddalwedd ar gyfer cwrdd â dulliau rhyngweithiol newydd.<br>**Costau Staffio Canolog**<br>Cadarnhawyd bod y canran o’r gyllideb sy’n cael ei wario ar gostau staffio wedi aros yn gyson rhwng 15% ac 17%. Adroddwyd mai un o’r blaenoriaethau yn y 2/3 mlynedd nesaf fydd i ddatblygu pobl o fewn y staff cyflogedig, ac mae’r trefniadau rheoli perfformiad newydd yn gam i’r cyfeiriad yma. Cytunwyd ei bod hi’n anodd meincnodi y 15/17% gydag unrhyw gorff arall, ac y dylid cael trafodaethau cyson wrth i’r Coleg dderbyn cyllid a chyfrifoldebau newydd.<br>Cytunwyd y bydd y Bwrdd yn derbyn cadarnhad ar e-bost unwaith bydd y Coleg yn derbyn llythyrau yn cadarnhau’r cyllid ychwanegol.<br>Cymeradwywyd y gyllideb fel maen sefyll yn unfrydol. | Cylchredeg y cadarnhad ysgrifenedig am y gyllideb ychwanegol at y Bwrdd pan fydd yn cyrraedd. | Pan ddaw i law |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11.2 | **Incwm o’r Buddsoddiadau**<br>Cytunwyd y gellid parhau i ddefnyddio incwm o’r buddsoddiadau lle bod angen, i gefnogi gweithgareddau sy’n datblygu’r Coleg fel corff. | | |
| 11.3 | **Rhestr Grantiau Cynllunio Academaidd**<br>Nodwyd a derbyniwyd y rhestr o Grantiau Cynllunio Academaidd ar gyfer 2022/23. Adroddwyd mai’r prif fuddsoddiad Addysg Uwch fydd y Grantiau Pynciol i gefnogi darpariaeth yn y Prifysgolion.<br>Cadarnhawyd y bydd rhai Grantiau Rhyngddisgyblaethol newydd, un ym Mhrifysgol Caerdydd ac un ym Mhrifysgol Glyndŵr. Cynlluniau peilot fydd y rhain y bydd y Coleg yn dymuno eu gweld yn cael eu hefelychu. | | |
| 11.4 | **Cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion**<br>Adroddwyd bod y Coleg wedi cytuno i ddwysau cydweithio gyda’r Ganolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion i weithredu un strategaeth Addysg Uwch, Addysg Bellach ac Ymchwil, ac y bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal ym mis Mai. | | |

## 12. Eitem 12 – Llythyr Grant

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 12.1 | Adroddwyd bod y Coleg wedi bod mewn trafodaeth gyda Branwen Thomas am y Llythyr Grant, a bydd gyda’r | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Coleg cyn diwedd y mis. Bydd yn cael ei gylchredeg i’r Cyfarwyddwyr unwaith y daw i law. | Cylchredeg y Llythyr Grant i’r Bwrdd. | Pan ddaw i law |

### 13. Eitem 13 – Materion Cyfansoddiadol

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 13.1 | Diolchwyd i bawb a fu yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Llys y diwrnod cynt.<br>Adroddwyd bod y Llys wedi derbyn yr Adroddiad Blynyddol a’r Cyfrifon Archwiliedig.<br>Adroddwyd bod y Llys wedi derbyn y cynnig gan y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant i ddiwygio rhai cymalau yn Erthyglau Cymdeithasau y Coleg. | | |

### 14. Eitem 14 – Unrhyw fater arall

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 14.1 | Ni chodwyd unrhyw faterion arall. | | |

### 15. Eitem 15 – Sefydlu Comisiwn Trydyddol (Caeëdig)

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 15.1 | Cyflwynwyd y papur yn gyfrinachol i’r Cyfarwyddwyr yn unig. Adroddwyd bod y Coleg bellach wedi derbyn cyngor cyfreithiol gan Gwion Lewis *CF*. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddwyd yn dilyn derbyn y cyngor bod Llywodraeth Cymru wedi dangos parodrwydd i gyflwyno gwelliannau, ond bod y Coleg yn parhau i aros i rhain gael eu cyhoeddi. Argymhellwyd galw cyfarfod brys petai angen, pan ddaw y gwelliannau. | Galw cyfarfod brys pan ddaw y gwelliannau, os bydd angen. | Petai angen |
| | Awgrymwyd un newid pellach i'r geiriad:<br>"(2) Wrth lunio'r cynllun, rhaid i'r Comisiwn –<br>(a) rhoi sylw i'r blaenoriaethau yn natganiad Gweinidogion Cymru o flaenoriaethau strategol;<br>(b) ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol." ***Dylai bod dyletswydd i ymgynghori â'r Coleg bob tro, nid dim ond wrth lunio'r Cynllun yn wreiddiol.*** | | |
| | Cytunwyd i aros i weld y gwelliannu yn gyntaf a'u hanfon at Gwion Lewis, cyn awgrymu y newid uchod. | Anfon un newid pellach at Gwion Lewis i'w ystyried. | Ar unwaith |
| | Adroddwyd bod y Coleg hefyd wedi dechrau trafod y Bil Addysg Gymraeg gydag is-adran y Gymraeg, a bod y Gweinidog wedi datgan y dylai'r Coleg gael ei roi ar sail statudol. Trafodwyd beth fyddai hyn yn ei olygu i'r Coleg, beth fyddai'r manteision a'r anfanteision? Mae ystod o wahanol fodelau posib. Cytunwyd y byddai'n rhaid ystyried yn ofalus beth fyddai'r goblygiadau i'r Coleg. | | |
| | Cytunwyd i wirio faint fyddai cost cyngor cychwynnol cyfreithiol am hyn. | Gwirio cost cyngor cyfreithiol ar y wahanol fodelau o gyrff statudol. | Ar unwaith |
| | Nodwyd mai bwriad y Llywodraeth yw cyhoeddi papur gwyn yn y misoedd nesaf, a bod y Coleg yn disgwyl bod yn rhan o drafodaethau ffurfiol gyda'r swyddogion yn fuan. | | |
| | Cytunwyd y dylid gosod y mater ar Agenda Bwrdd y Cyfarwyddwyr ym mis Gorffennaf. | Gosod y Bil Addysg Gymraeg arfaethedig ar Agenda'r Bwrdd. | 6 Gorffennaf 2022 |

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**16. Eitemau 16 – Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant (Caeëdig)**

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 16.1 | **Cofnodion**<br>Nodwyd a derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2022. | | |
| 16.2 | Adroddwyd mai'r prif faterion trafod oedd rhai cyfansoddiadol.<br>Nodwyd eu bod wedi cytuno y dylid enwebu mwy o gynrychiolwyr o'r sector Addysg Bellach ar gyfer Llys y Coleg, fel bod gwell cyfartaledd rhwng y ddwy sector, a'u bod wedi trafod y broses o ail benodi Cadeirydd y Coleg.<br>Adroddwyd y bydd pecyn gwybodaeth mwy deniadol yn cael ei ddarparu wrth hysbysebu swyddi.<br>Rhagwelir y bydd yr hysbyseb am Gadeirydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill ac yn cau ar 1 Mehefin, gyda'r penodiad i'w gymeradwyo yng nghyfarfod Gorffennaf 2022. | | |
| 16.2 | **Gweithdrefn Ail Benodi Cadeirydd:**<br>Cyflwynwyd y papur yn manylu ar y newidiadau arfaethedig.<br>- Cyflwyno proses werthuso.<br>- Ymestyn tymor gwasanaeth.<br>Cymeradwywyd y papur a'r argymhellion i benodi ac asesu perfformiad. | | |

## 17. Eitem 17 – Cyfarfodydd y Bwrdd: trafodaeth ar ffurf y cyfarfodydd yn y dyfodol (Caeëdig)

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 17.1 | Cafwyd trafodaeth ar ffurf cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol. Cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf wyneb yn wyneb cyhyd â bod modd ymuno yn rhithiol hefyd. Nodwyd yr angen i gael ystafell addas o ran sicrhau hyder yn y dechnoleg i hynny weithio.<br>Cytunwyd i drafod yn y cyfarfod nesaf y trefniadau am 2022/23. | Trefnu'r cyfarfod nesaf wyneb yn wyneb (gyda opsiwn rhithiol). | Erbyn 6 Gorffennaf 2022. |

## 18. Eitem 18 – Dyddiadau y cyfarfodydd nesaf (lleoliadau i'w cadarnhau)

| Rhif | Prif bwyntiau trafod | Pwyntiau Gweithredu | Cyfnod Amser |
|---|---|---|---|
| 18.1 | Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:<br>• 6 Gorffennaf 2022<br>• 23 Tachwedd 2022<br>• 22 Mawrth 2023<br>• 28 Mehefin 2023 | | |